COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 20 MAWRTH 2019, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd JR McCarthy – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| MC Clarke | N Clarke | RJ Collins | HJ David |
| P Davies | PA Davies | DK Edwards | J Gebbie |
| RM Granville | DG Howells | A Hussain | RM James |
| B Jones | M Jones | MJ Kearn | DRW Lewis |
| JE Lewis | D Patel | RL Penhale-Thomas | AA Pucella |
| KL Rowlands | B Sedgebeer | RMI Shaw | CE Smith |
| SG Smith | JC Spanswick | RME Stirman | G Thomas |
| T Thomas | JH Tildesley MBE | E Venables | MC Voisey |
| LM Walters | KJ Watts | CA Webster | DBF White |
| A Williams | AJ Williams | HM Williams | JE Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

NA Burnett, SK Dendy, T Giffard, CA Green, DG Owen, JC Radcliffe, SR Vidal, PJ White a/ac RE Young

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Deborah Exton | Rheolwr Grŵp Cynllunio Ariannol a Rheoli Cyllidebaue |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Gaynor Thomas | Rheolwr Rhaglen Ysgolion |
| Kelly Watson | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a Swyddog Monitro |

286. DATGAN BUDDIANT

Datganwyd y buddiannau a ganlyn. Gadawodd yr Aelodau hynny a ddatganodd fuddiant rhagfarnus y cyfarfod tra bo'r eitemau a ddatganwyd ganddynt yn cael eu hystyried: -

Cynghorydd D Lewis - Eitem 6 ar yr Agenda. Buddiant personol fel Aelod o Banel Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynghorydd B Jones - Eitem 10 ar yr Agenda. Buddiant personol gan fod ei frawd yn derbyn Gostyngiad Treth Gyngor ar eiddo gwag.

Cynghorydd S Baldwin - Eitem 6 ar yr Agenda. Buddiant personol fel Aelod o'r Bwrdd Asedau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynghorydd JC Spanswick - Eitem 6 ar yr Agenda. Buddiant personol fel Aelod o Banel Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Eitem 8 ar yr Agenda. Buddiant rhagfarnus gan fod perthnasau'n cael eu cyflogi gan y Cyngor.

Cynghorydd DBF White - Eitem 8 ar yr Agenda. Buddiant rhagfarnus gan fod ei wraig yn gweithio i'r Cyngor. Eitem 6 ar yr Agenda. Buddiant personol fel Aelod o'r Bwrdd Iechyd Cymunedol Lleol. Eitem 10 ar yr Agenda. Buddiant personol gan fod perthynas agos iddo yn Swyddog Cofrestru AAA.

Cynghorydd JP Blundell - Eitem 6 ar yr Agenda. Buddiant personol fel Aelod o Banel Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynghorydd R Shaw - Eitem 6 ar yr Agenda. Buddiant personol fel Aelod o Banel Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynghorydd T Thomas - Eitem 6 ar yr Agenda. Buddiant personol fel Aelod o Banel Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynghorydd T Beedle - Eitem 6 ar yr Agenda. Buddiant personol fel Aelod o Banel Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynghorydd RM James - Eitem 8 ar yr Agenda. Buddiant rhagfarnus gan fod perthynas yn gyflogai i CBS Pen-y-bont ar Ogwr.

Cynghorydd J Gebbie - Eitem 8 ar yr Agenda. Buddiant rhagfarnus fel Aelod o gorff negodi'r Cydgyngor Cenedlaethol.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth yr aelodau y byddai'r holl Swyddogion a oedd yn bresennol yn gadael y cyfarfod ar gyfer Eitem 8 ar yr Agenda, gan fod ganddynt fuddiant uniongyrchol yn yr eitem honno am ei bod yn trafod Polisi Cyflogau'r Cyngor. Yr unig gyflogeion fyddai'n aros yn Siambr y Cyngor fyddai'r Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau i gymryd cofnodion, a'r Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadol a fyddai'n cyflwyno'r adroddiad.

287. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo bod Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 20 Chwefror 2019 yn gywir.

288. CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Ers cyfarfod diwethaf y Cyngor, cyhoeddodd y Maer y bu hi'n gyfnod gweddol dawel arno ef a'i Gydweddog. Roeddent wedi cynnal 11 o ymweliadau swyddogol, a oedd yn amrywiol iawn eu natur ac yn bleserus iawn. Yr oedd am gyfeirio'n arbennig at y canlynol:

Roeddent yn hynod falch o fod yn bresennol yn ailagoriad Clwb Bechgyn a Merched Nant-y-moel. Mae'r clwb wedi cael ei adnewyddu'n ddiweddar ac erbyn hyn yn ganolfan gymunedol sy'n darparu cyfleusterau gwych i'r gymuned leol. Yr oedd yn gyfarfod gwych, yn enwedig i'r holl bobl sydd wedi bod yn gweithio mor galed i wireddu'r cyfan.

Wythnos diwethaf, buont yn bresennol yn seremoni Gwobrau Ieuenctid Cymunedol yr Uchel Siryf, ac yn arbennig o falch o weld 3 enillydd a ddeuai o Ben-y-bont ar Ogwr. Cafodd yr MPTC gydnabyddiaeth am godi arian yn y gymuned, enillodd Ysgol Pont y Crychydd Wobr Grŵp Dug Caeredin am eu cyflawniadau parhaus, ac fe ganmolwyd y Zone ym Mhen-y-bont ar Ogwr am ei waith gyda phobl ifanc.

Yn gynharach yn y mis, cafodd y Maer a'i gydweddog wahoddiad i gwrdd â 3 chyngor ysgol, Ysgol Gynradd Corneli, Afon y Felin ac Ysgol y Sgêr. Bu'r plant yn eu holi ynghylch eu rolau,

profiad llawn hwyl ond hefyd yn her! Cawsant wybod beth oedd teimladau a phryderon y bobl ifanc, ac roedd hi'n galonogol eu brwdfrydedd i gymryd rhan.

Dyma fanylion yr holl ddigwyddiadau y bu'r Maer yn bresennol ynddynt yn ddiweddar:

- Agoriad clwb bechgyn a merched Nant-y-moel;
- Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Arglwydd Faer Caerdydd;
- Codi arian er budd Bad Achub Porthcawl;
- Gemau Mini-Olympaidd Bro Ogwr.
- Agor ystafelloedd synhwyraidd Cymuned Mulligan;
- Cawl a Chân Côr Pencoed;
- Ailagor llyfrgell y Pîl;
- Gwobrau Ieuenctid Cymunedol yr Uchel Siryf;
- Cyfarfod 3 Ysgol Gynradd Corneli;
- Cinio Elusennol Maer Castell-nedd Port Talbot.

Y Dirprwy Arweinydd

Dechreuodd y Dirprwy Arweinydd drwy longyfarch disgyblion Ysgol Gynradd Cwmfelin am greu'r poster a enillodd gystadleuaeth a drefnwyd yn rhan o Ymgyrch Gwastraff Bwyd Pen-y-bont ar Ogwr.

Hyd yma, mae dros 3,000 o ddisgyblion o 39 o ysgolion cynradd wedi cael eu haddysgu drwy'r fenter hon ynghylch sut y gellir ailgylchu a gwastraff bwyd a'i droi'n drydan.

Gofynnwyd i bob disgybl ddylunio a chyflwyno poster i esbonio'r llu o fanteision sy'n gysylltiedig ag ailgylchu gwastraff bwyd, ac o Ysgol Cwmfelin y daeth y syniad buddugol.

Bydd y dyluniad hwn yn awr yn cael ei arddangos yn amlwg ar ochr cerbydau ailgylchu ar draws y fwrdeistref sirol, ac bydd disgyblion Cwmfelin yn cael mwynhau taith o amgylch Gweithfeydd Agrivert ym Mharc Stormy, i weld y broses ar waith.

Yn ddiweddar, cynhaliodd ein tîm o'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Ariannol ddigwyddiad agored yng Nghanolfan Cyngor ar Bopeth Pen-y-bont ar Ogwr yng nghanol y dref.

Yr oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys BAVO, Canolfan MC, Cymunedau ar Waith, Cynghrair Pobl Anabl Pen-y-bont ar Ogwr, Hafod, y Zone a mwy.

Cafwyd ymateb gwych, a bu'r tîm yn ymgysylltu â mwy na 150 o bobl, yr oedd amryw ohonynt wedi taro heibio ar ôl clywed am y digwyddiad gan eraill yng nghanol y dref.

Cynhyrchodd lawer o atgyfeiriadau, ac mae'r tîm bellach wedi mynd ar drywydd pob un ohonynt, ac yr oedd yn falch iawn o weld y sefydliadau sy'n ymwneud â'r maes yn dod ynghyd i weithio mewn partneriaeth, rhannu arfer da a chefnogi pobl leol.

I gloi, cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd ei fod wedi cael sioc o weld bod mwy na £34 miliwn wedi'i ddwyn gan breswylwyr a busnesau'r DU drwy seiberdroseddu rhwng mis Ebrill a mis Medi y llynedd.

Cafodd £190,000 ei ddwyn bob dydd dros yr un cyfnod yng Nghymru. Mae seiberdroseddu ar gynnydd ac yn fygythiad modern a gwirioneddol.

Dyna pam ei fod mor falch o weld y bydd yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol yn dod â'i Daith Bws Seiberddiogelwch Cymru i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr ddydd Gwener yma.

Bydd y bws yn gosod stondin yn Dunraven Place rhwng hanner dydd ac 8pm. Gallwch alw heibio yn rhad ac am ddim, a bydd cyngor arbenigol ar gael i unigolion a busnesau ynghylch sut i osgoi sgamwyr ac aros yn ddiogel ar-lein.

Mae hyn wrth gwrs o fudd mawr i bobl leol, ac roedd yn gobeithio y byddai'r aelodau yn hysbysu eu hetholwyr ynghylch y digwyddiad.

Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol ei bod wedi cael newyddion gwych i'w rhannu â'r Aelodau.

Mae asesydd ansawdd diwydiant hamdden y DU, Quest, wedi rhoi'r safle cyntaf i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Halo Leisure am ein gwaith yn ei gategori 'Cymunedau Egnïol'.

Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau sydd yn annog pobl i fyw'n iachach ac i fod yn fwy gweithgar ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi cael eu cydnabod yn swyddogol fel gwasanaethau gorau'r DU.

Derbyniodd y Cyngor a Halo hefyd ddyfarniad 'rhagorol' a oedd yn cydnabod ansawdd uchel y gwasanaeth cyffredinol a gynigir drwy eu partneriaeth lwyddiannus.

Dyma un o'r saith dyfarniad a ddefnyddir gan Quest wrth fesur effeithiolrwydd timau rheoli chwaraeon a chyfleusterau hamdden.

Bu aseswyr Quest yn edrych ar ystod o ffactorau a oedd yn cynnwys pa gefnogaeth a roddir i bobl anabl, sut rydym yn annog pobl segur i symud, ein hymgysylltiad â phlant a phobl ifanc, ein dull o reoli cyllid a datblygu busnes, y rhaglen atgyfeirio ymarfer corff, cyfraddau ymgysylltu â phobl hŷn, a mwy.

Gydag achrediad Quest yn weithredol ym mhob un o'n canolfannau hamdden a'n pyllau nofio, mae'r dyfarniad hefyd yn adlewyrchu mentrau fel ein Hardaloedd Teulu Egnïol, a'n sesiynau OlympAge sydd yn ceisio cael mwy o bobl i gymryd rhan yn hytrach na helpu'r rhai sydd yn mynd i'r gampfa yn rheolaidd i gynyddu eu ffitrwydd.

Mae ymweliadau â'n canolfannau hamdden a'n pyllau nofio wedi cynyddu'n sylweddol ers i'r Cyngor a Halo ffurfio'r bartneriaeth yn wreiddiol saith mlynedd yn ôl. Mae pobl leol wedi croesawu'r ymgyrch genedlaethol i fyw bywyd iachach a mwy egnïol â breichiau agored.

Mae'r dyfarniad nid yn unig yn cydnabod ein dull o weithio mewn partneriaeth, ond hefyd yn cydnabod y gwaith a gyflawnir gan ysgolion, clybiau a sefydliadau cymunedol lleol hefyd.

Roedd yr Aelod Cabinet yn sicr y byddai'r holl Aelodau yn cytuno bod cael cydnabyddiaeth swyddogol mai'r gwasanaeth yw'r gorau yn y DU yn gyflawniad gwych.

Dymunai longyfarch a diolch i bawn a oedd wedi helpu i sicrhau'r fath lwyddiant ysgubol.

Roedd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol hefyd am atgoffa'r Aelodau y byddai ysgol fusnes dros dro yn cael ei chynnal yn rhad ac am ddim yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr drwy gydol yr wythnos nesaf.

Pwrpas yr ysgol yw rhoi'r wybodaeth a'r offer angenrheidiol i gyfranogwyr ddechrau eu busnes eu hunain, a bydd yn croesawu unrhyw un a chanddynt ddiddordeb ym myd busnes.

Bydd nifer o bynciau yn cael eu cynnig bob dydd, gan amrywio rhwng sut i ddechrau busnes, sut i greu gwefan effeithiol, sut i ganfod cwsmeriaid ar-lein a llawer mwy.

Mae'r wythnos yn cael ei threfnu ochr yn ochr â Chyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr a Halo, a bydd yn cael ei chynnal yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr rhwng dydd Llun a dydd Gwener, 25-29 Mawrth, o 10am tan 3pm bob dydd.

Bydd angen i gyfranogwyr archebu lle ymlaen llaw, a gellir gwneud hynny drwy ymweld â popupbusinessschool.co.uk Mae'r wefan hefyd yn cynnwys yr holl wybodaeth am destunau a gweithgareddau pob diwrnod.

Y tro diwethaf inni drefnu'r digwyddiad hwn, yr oedd yn hynod lwyddiannus ac fe gafwyd llawer o ddiddordeb ynddo. Roedd hi'n siŵr y byddai llawer o ddiddordeb eto yn y digwyddiad yr wythnos nesaf.

Yn olaf, cynhaliodd y Cyngor ddigwyddiad mewnol ddoe i ddathlu Diwrnod Gwaith Cymdeithasol y Byd.

Yn rhan o'r digwyddiad, edrychwyd ar y  modd y gall ein staff gofal cymdeithasol helpu i ddod â chenedlaethau ynghyd, helpu pobl hŷn i gadw cysylltiad â'u teuluoedd a helpu plan sy'n derbyn gofal i gynllunio ar gyfer eu dyfodol drwy ddeall eu gorffennol.

Yn seiliedig ar y thema 'Pwysigrwydd Perthnasoedd Dynol', roedd y digwyddiad yn arddangos arferion rhwng y cenedlaethau, ac ystyriai offeryn newydd o'r enw 'Dy Lyfr Di' sy'n defnyddio therapi hel atgofion i greu hanes bywyd drwy ddefnyddio geiriau, lluniau, cerddoriaeth a ffilm.

Bu'r staff yn archwilio "Gwaith Taith Oes" i blant sy'n eu helpu i wneud synnwyr o'u sefyllfa, i dderbyn y sefyllfa honno ac i symud ymlaen. Bu'r staff hefyd yn astudio sut y gall y gwasanaeth atal a llesiant ddod â phobl ynghyd mewn cymunedau i gynnal a ffurfio perthnasoedd.

Dywedodd y staff fod y digwyddiad wedi bod yn fuddiol ac wedi rhoi mewnwelediad iddynt. Byddant yn ymgorffori ac yn myfyrio ar hynny yn eu gwaith o hyn allan.

Aelod Cabinet - Adfywio ac Addysg

Roedd yr Aelod Cabinet - Adfywio ac Addysg yn siŵr y byddai'r Aelodau am ymuno ag ef i longyfarch Hollie Evans, disgybl yn Ysgol Gynradd y Llidiart, a'i mam, Hayley.

Yn sgil eu hymdrechion, mae Ysgol Gynradd y Llidiart bellach yn cynnwys gwaith yr artist stryd sy'n enwog ar raddfa fyd-eang, James Ame.

Drwy weithio o dan yr enw 'Ame 72', mae'r artist yn arbenigo mewn paentio gweithiau celf sy'n cynnwys ffigurau lego. Cyrhaeddodd y penawdau'n ddiweddar pan ymddangosodd tair o'i greadigaethau ym Mhort Talbot i ymuno â gwaith graffiti enwog Banksy yn y dref.

Y tro hwn, y mae wedi creu gwaith lliwgar fel teyrnged i gefnogi ymdrechion Hollie i godi ymwybyddiaeth gadarnhaol ynghylch Syndrom Downs, a bydd ymwelwyr ag Ysgol Gynradd y Llidiart yn synnu o weld ffigur Lego gyda balŵn siâp calon wedi'i baentio ar un o waliau'r ysgol.

Mae Hollie yn destun ysbrydoliaeth wirioneddol, ac yn gaffaeliad i'w hysgol, ei theulu a'i chymuned. Yn 2014, rhoddodd ddeunaw modfedd o'i gwallt i'r Little Princess Trust, sy'n rhoi cefnogaeth i ddioddefwyr canser ifanc sy'n derbyn triniaeth.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Hollie a'i chwaer Poppie hefyd wedi casglu cannoedd o wyau Pasg y maent yn eu cyfrannu i blant sy'n sâl yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac yn Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru.

Gan hynny, yr oedd wrth ei fodd y byddai caredigrwydd Hollie yn cael ei gydnabod ddydd Gwener pan fyddai'n derbyn Gwobr y Maer am Ddinasyddiaeth, gwobr yr oedd yn ei llawn haeddu. Ynghyd â'r gwaith celf yn Ysgol Gynradd y Llidiart, bydd y wobr hon yn deyrnged deilwng i'w charedigrwydd ac yn enghraifft wych i eraill.

Gwelwyd datblygiad arall yr wythnos diwethaf yn sgil partneriaeth y Cyngor ag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, pan ailagorwyd Llyfrgell y Pîl ar ei newydd wedd yn dilyn gwaith adnewyddu gwerth £100,000.

Mae'r gwaith adnewyddu a ariannwyd ar y cyd drwy ddefnyddio Grant Cyfalaf Trawsnewid o Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd yn Llywodraeth Cymru, wedi'i gwneud hi'n bosibl creu llyfrgell fwy a goleuach, ac iddi ofod mwy hyblyg, sy'n cynnig mynediad rhwyddach i ymwelwyr.

Ar yr un pryd, mae Awen wedi cyhoeddi na fydd mwyach yn codi dirwy am lyfrau a ddychwelir yn hwyr i'r llyfrgell ar ôl 1 Ebrill. Mae hyn yn rhan o fenter i annog mwy o bobl i ddefnyddio'r gwasanaeth llyfrgelloedd, ac i ailddarganfod manteision darllen a dysgu.

Efallai y bydd gan yr aelodau ddiddordeb yn nyfodiad adnodd digidol sy'n helpu plant i ddeall a dysgu am fioamrywiaeth leol yn y fwrdeistref sirol.

Mae pori cadwriaethol mewn ardaloedd fel Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig yn helpu i reoli planhigion ymosodol ac ymledol, gan sefydlu cynefinoedd i bryfed peillio, adar sy'n nythu ar y ddaear, gloÿnnod byw a rhywogaethau eraill.

Mae hyn yn cael ei esbonio yn rhan o adnodd 'Bugail Digidol' newydd sy'n hyrwyddo ffyrdd o ymdrin â'r dirywiad mewn eco-systemau, gan annog pobl i ymddwyn yn fwy cyfrifol o amgylch da byw ar yr un pryd.

Mae'r wefan adnoddau 'Bugail Digidol' ar gael ar wefan Reach Pen-y-bont ar Ogwr os hoffai'r aelodau gael mwy o wybodaeth amdani.

Yn olaf, roedd y Cyngor yn ddiweddar wedi cael newyddion da oddi wrth Lywodraeth Cymru ynghylch pwysau ar y gyllideb yn sgil problemau cynnal a chadw ysgolion.

Bwriedir rhannu mwy na £40 miliwn o bunnoedd o gyllid cyfalaf ymhlith Cynghorau er mwyn mynd i'r afael ag ysgolion sydd mewn cyflwr gwael, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd awdurdodau lleol hefyd yn cael penderfynu ar flaenoriaethau wrth wario'r arian hwnnw.

Mae hyn yn wahanol iawn i delerau grant y llynedd, ac yr oedd yn falch y byddai'r grant yn cefnogi'r gwaith sy'n cael ei gyflawni yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Bydd Band B y rhaglen yn dechrau y flwyddyn nesaf, ac mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod am feithrin cysylltiadau gwaith agosach â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a rhoi cefnogaeth bellach i gynnal a chadw ysgolion ledled Cymru yn y tymor hwy.

Mae CLILC wedi bod yn lobïo ynghylch ar y mater hwn ers cryn amser, felly mae hyn yn newyddion gwych a bydd yn rhannu mwy o fanylion yn fuan.

<u>Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant</u>

Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn siŵr y byddai'r aelodau eisoes wedi nodi'r adroddiad a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r Cabinet a diweddariad mewnol y Prif Weithredwr Dros Dro i'r staff ar ein sefyllfa wrth baratoi am Brexit.

Nid oedd am roi crynodeb ohonynt eto, ond apeliodd ar yr Aelodau fel cynrychiolwyr etholedig i helpu CBS Pen-y-bont ar Ogwr i hyrwyddo dwy neges bwysig iawn yn ein cymunedau lleol.

Y gyntaf yw bod Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE bellach ar agor, a bod angen i unrhyw ddinasyddion yr UE nad ydynt yn dod o'r Deyrnas Unedig, ac sydd am barhau i fyw a gweithio yng Nghymru, gofrestru i ennill statws preswylydd sefydlog neu gyn-breswylydd sefydlog.

Mae'r broses ymgeisio yn syml i'w chwblhau, ac yn cynnwys amrywiaeth o opsiynau y gallwch ddarllen amdanynt ar wefan www.gov.uk.

Rydym yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad i unrhyw gyflogeion o fewn y Cyngor y gallai hyn fod yn effeithio arnynt, i'w helpu i gwblhau'r broses.

Mae a wnelo'r ail neges â busnesau lleol.

Mae Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates, wedi cysylltu â'r holl awdurdodau lleol i bwysleisio pa mor bwysig yw helpu busnesau i baratoi'n ddigonol am y posibilrwydd o Brexit heb gytundeb.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda busnesau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ers tro ar hyn, ond ceir posibilrwydd o hyd nad yw busnes bach neu unig fasnachwr wedi bod mewn cysylltiad â'r Cyngor na Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr.

Gofynnodd i'r Aelodau a oeddent yn gallu meddwl am unrhyw unigolion neu fusnesau o'r fath yn eu wardiau

Os felly, gofynnodd iddynt eu hannog i gysylltu â'r awdurdod ar y cyfle cyntaf er mwyn cael cyngor ac arweiniad arbenigol.

Gallant hefyd ymweld â 'Phorthol Brexit' a chwblhau hunanasesiad ar wefan Busnes Cymru, fydd yn eu helpu i ddeall yn union pa mor barod yr ydynt am Brexit.

Mae Busnes Cymru hefyd yn trefnu gweithdai wedi'u cynllunio i helpu busnesau a masnachwyr ymbaratoi am Brexit, ac yn cynnig llinell gymorth arbenigol.

I gloi, dywedodd fod gwybodaeth am hyn a mwy ar gael yn www.busnescymru.llyw.cymru.

289. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn gobeithio fod yr Aelodau wedi gweld y cyhoeddiad diweddar fod canolfan drafnidiaeth integredig wedi'i chynllunio yn y Pîl yn rhan o fuddsoddiad £50 miliwn gan Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd mewn prosiectau Metro a Mwy ledled De Ddwyrain Cymru.

Nod y rhaglen yw creu 'rhyngnewidfeydd' sy'n ymgorffori'r holl ddulliau teithio a all weithredu fel canolfannau allweddol i ddefnyddio rhwydweithiau metro newydd ac estynedig i gyrraedd gwaith, hyfforddiant, addysg, diwylliant, siopau a chyfleusterau hamdden drwy'r rhanbarth.

Gan fod bron 119,000 o deithiau wedi'u cychwyn o orsaf y Pîl yn 2016-17 - cyfanswm o 35 y cant o gynnydd o gymharu â 2012-13 - roedd hyn yn newyddion ardderchog, gan y bydd o fudd mawr i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, gan gynnwys y Pîl, Corneli, Mynydd Cynffig, Porthcawl a Chefn Cribwr.

Bwriedir buddsoddi swm sylweddol, gan gynnwys datblygiad parcio a theithio newydd gwerth £3 miliwn, lle i oddeutu 75 o geir, pwyntiau gwefru cerbydau trydan, mannau parcio beiciau, cysylltiadau gwell ag Ystâd Ddiwydiannol Village Farm a llawer mwy.

Fel Cadeirydd Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru, roedd hi'n bleser gan yr Arweinydd gael cyhoeddi'r cynnig, ac roedd yn edrych ymlaen i weld y prosiect yn datblygu ymhellach.

Roeddem yn parhau i gefnogi ffatri Ford Pen-y-bont ar Ogwr, ac yr oedd wedi ymweld â'r ffatri yn ddiweddar gyda'n haelodau Seneddol, Madeleine Moon a Chris Elmore.

Roedd y lefel uchel o ddyfeisgarwch yng ngweithlu'r ffatri sy'n peri mai llinell Dragon yw llinell fwyaf cynhyrchiol Ford drwy'r byd, a'r ffaith bod gan y ffatri hefyd Adran Ymchwil a Datblygu o safon fyd-eang ar y safle, wedi creu cryn argraff arnynt.

Bydd dangos gwerth ychwanegol fel hyn yn siŵr o gynyddu'r hyder yn nyfodol y ffatri, ac roeddem yn awyddus i gefnogi ac annog enghreifftiau fel hyn o arloesi.

O ganlyniad i'r ymweliad, bu modd inni gysylltu Ford â'n prosiect arloesol ein hunain i sbarduno systemau ynni, ac rydym wedi cynnwys rheolwr prosiect o Brifysgol De Cymru sy'n gyfrifol am ddatrysiadau storio ynni clyfar.

Yn ogystal â hyn, rydym hefyd wedi cysylltu Ford ag Innovate UK, sefydliad cyhoeddus cenedlaethol sydd yn helpu busnesau i sicrhau twf economaidd drwy ymchwil a datblygu, yn ogystal â'r gronfa her ar gyfer datblygiadau newydd drwy Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Mae'r cynigion yn mynd rhagddynt, a bydd Innovate UK yn ymweld â'r ffatri yn fuan. Mae pob un ohonom yn disgwyl y canlyniad, a bydd yn rhoi newyddion pellach i'r Aelodau wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

I gloi, dymunai'r Arweinydd roi'r newyddion diweddaraf ynghylch recriwtio Prif Weithredwr parhaol i CBS Pen-y-bont ar Ogwr.

Rydym wedi cydweithio â Solace i baratoi i recriwtio ac i lunio hysbyseb, ac mae'r swydd bellach yn fyw.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 8 Ebrill, a bydd darpar ymgeiswyr yn cael gwahoddiad i ddod i ganolfan asesu ar 30 Ebrill.

Cynhelir y cyfweliadau terfynol o flaen holl Aelodau'r Cyngor ar 1 Mai, ac yn dilyn hynny bydd ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei ddewis a'i gyhoeddi.

Sicrhaodd yr Arweinydd yr Aelodau y byddai'n rhoi'r newyddion diweddaraf iddynt am y broses recriwtio.

290. <u>NEWID FFINIAU'R BYRDDAU IECHYD - Y DIWEDDARAF</u>

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad, a oedd yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cyngor am y sefyllfa gyfredol o ran newid y Ffin Iechyd ym mis Ebrill 2019, er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n ymwybodol o'r gwaith a

gyflawnwyd, ac sy'n parhau i gael ei gyflawni er mwyn paratoi i newid y ffin iechyd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (PABM) i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Fel gwybodaeth gefndir i hyn, dywedodd fod Llywodraeth Cymru, ar 13 Rhagfyr 2017, wedi cychwyn ymgynghoriad o dan y teitl 'Gweithio'n Effeithiol mewn Partneriaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Newid arfaethedig i ffin y Byrddau Iechyd i gysoni'r modd y gwneir penderfyniadau ar draws Iechyd a Llywodraeth Leol Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 7 Mawrth 2018.

Gofynnai'r ymgynghoriad am safbwyntiau ynghylch cynnig y dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (Cwm Taf), yn hytrach na Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (PABM) ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, er mwyn cysoni'r modd y gwneir penderfyniadau ar draws iechyd a llywodraeth leol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, o 1 Ebrill 2019, y bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn cael ei alw'n Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ac y bydd rhanbarth Bae'r Gorllewin yn cael ei alw'n rhanbarth Gorllewin Morgannwg. Yn yr un modd, bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn cael ei alw'n Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morganwg, a rhanbarth Cwm Taf yn cael ei alw'n rhanbarth Cwm Taf Morgannwg.

O safbwynt awdurdod lleol, ychwanegodd fod newid y ffiniau yn effeithio ar nifer o wasanaethau yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr, er na cheir tarfu i'r un graddau ar wasanaethau cyffredinol â gwasanaethau'r Byrddau Iechyd o bosib. Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn bartner hanfodol yn Rhaglen Ranbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin, a chan hynny, o safbwynt awdurdod lleol, mae gwaith hollbwysig wedi cael ei gyflawni i amddiffyn gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod y cyfnod hwn o aflonyddwch, ac i sicrhau parhad yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg ar ôl 1 Ebrill 2019. Gan hynny, bu'n hanfodol i CBS Pen-y-bont ar Ogwr fabwysiadu dull strwythuredig o ddatgyfuno gwasanaethau rhanbarthol. Er mwyn gwneud hyn bu'n rhaid cydweithio'n agos ag ystod o bartneriaid er mwyn sicrhau, lle bo cyllid rhanbarthol yn cefnogi gwasanaethau integredig, y rhoddir cyfrif am y gwasanaethau hynny rhwng Bae'r Gorllewin, Bwrdd Iechyd PABM a CBS Pen-y-bont ar Ogwr.

Yna, cynghorodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, wrth gynllunio i newid ffiniau rhanbarthol, fod Rhaglen Bontio wedi'i sefydlu sy'n cynnwys, ar amrywiaeth o lefelau, Swyddogion o'r ddau Fwrdd Iechyd, CBS Pen-y-bont ar Ogwr a'r trydydd sector Roedd y strwythur llywodraethu wedi'i yn Atodiad 1 yr adroddiad, ac yn dangos y Byrddau trosfwaol yn ogystal â'r ffrydiau gwaith sy'n cefnogi'r Rhaglen Bontio.

Roedd yr adroddiad wedyn yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r agweddau sy'n effeithio ar CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi'u cynnwys yn y Ffrwd Waith Partneriaeth. Hi ei hun oedd Cadeirydd y Ffrwd Waith honno, a oedd hefyd yn cynnwys Swyddogion o'r partneriaid eraill allweddol a oedd yn cymryd rhan yn y trefniant newydd.

Cytunodd yr holl bartneriaid ar gyfres o Egwyddorion o'r cychwyn cyntaf, i danategu gwaith y Rhaglen Bontio ac yn sail i'r holl bartneriaid eu dwyn eu hunain, a dwyn y naill a'r llall, i gyfrif am gyflawni'r newidiadau gofynnol yn llwyddiannus. Roedd yr Egwyddorion hyn wedi'u cynnwys yn Atodiad 2 yr adroddiad, ac mae gan y Ffrwd Waith Partneriaeth ei chyfres ei hun o egwyddorion sy'n seiliedig ar y rhain.

Roedd rhannau nesaf yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bellach am drefniadau'r Trydydd Sector, materion y Gweithlu, Ystadau a Chyllid.

Mewn perthynas â'r olaf o'r rheiny, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod Bae'r Gorllewin ar hyn o bryd yn derbyn grantiau refeniw rhanbarthol amrywiol oddi wrth Lywodraeth Cymru yn flynyddol, fel cyllid gofal

integredig a chyllid gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau. Dyrennir y grantiau hyn drwy'r Byrddau Iechyd ond nodir yn glir yn y meini prawf fod yn rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y trefniadau partneriaeth rhanbarthol. Mae'r grantiau rhanbarthol hyn wedi cael eu datgyfuno er mwyn gwahanu dosraniad ardal Pen-y-bont ar Ogwr a fydd wedyn yn cael ei drosglwyddo i ranbarth Cwm Taf Morgannwg mewn pryd ar gyfer blwyddyn ariannol newydd 2019/20.

Mae'r Ffrwd Waith Partneriaeth wedi gweithio i sicrhau bod y dull o ddatgyfuno grantiau yn deg, agored a thryloyw, a gofynnwyd am gytundeb y ddau Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i'r perwyl hwn. Dangosai'r tabl ym mharagraff 4.17 yr adroddiad ddadansoddiad o'r grantiau a'r symiau wedi'u datgyfuno ar gyfer ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn ogystal â hynny, dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £30 miliwn o gyllid refeniw ychwanegol o'r Gronfa Gofal Integredig ar draws Cymru yn 2019/20. Amcangyfrifwyd y bydd hyn yn gyfwerth ag oddeutu £1.3 miliwn i ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Yn ogystal â hynny, nodwyd mai dyraniadau cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, a fyddai'n trosglwyddo o Fae'r Gorllewin i Gwm Taf fyddai £1.5 miliwn ar gyfer 2019/20 ac £1.8 miliwn ar gyfer 2020/21.

Roedd rhan nesaf yr adroddiad yn amlinellu'r Gwasanaethau o fewn y Cwmpas, ac roedd y rhain wedi'u dangos ym mharagraff 4.21, ac roedd dyfyniad (ar ffurf tabl) o'r atodlen yn dangos y gwasanaethau y cyfeiriwyd atynt yno ym mharagraff 4.22 (yr adroddiad).

Roedd paragraffau 4.23 i 4.29 yr adroddiad wedyn yn rhoi disgrifiad manylach o'r Trefniadau Partneriaeth Rhanbarthol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cysgodol wedi cael ei sefydlu, ac o fis Ebrill 2019 ymlaen, byddai CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn aelod o'r Bwrdd llawn.

Aeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedyn ati i ddisgrifio rolau cyrff cefnogol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Bwrdd Iechyd Cwm Taf, yr oedd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn Aelod cysylltiol.

Wedyn i gloi, esboniodd oblygiadau ariannol yr adroddiad wrth y Cyngor, lle'r oedd mân ddiwygiad i gynnwys yr adroddiad, sef bod £180,000 o gyllid wedi'i sicrhau i ariannu'r ffrydiau gwaith trosiannol ar gyfer 2018/19, a oedd yn cynnwys £100,000 gan Lywodraeth Cymru ac £80,000 gan yr holl Fyrddau Iechyd gyda'i gilydd.

Yna cyflwynodd Allison Williams, Prif Weithredwr Awdurdod Iechyd Cwm Taf, ynghyd â Maria Thomas yr Is-gadeirydd. Rhoddodd y Prif Weithredwr y newyddion diweddaraf o safbwynt y Bwrdd Iechyd ac ar ôl hynny atebodd gwestiynau'r Aelodau ochr yn ochr â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cyngor nodi'r ymagwedd a'r cynnydd a wnaed hyd yma yn gysylltiedig â newid ffin y Byrddau Iechyd.

291. RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION - BAND B

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd, y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 adroddiad ar y cyd a roddai'r newyddion diweddaraf i'r Cyngor ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i newid cyfradd ymyrraeth y Model Buddsoddi Cydfuddiannol ar gyfer Band B; gofynnodd i'r Cyngor gefnogi'r ymrwymiad ariannol diwygiedig oedd ei angen er mwyn cyflawni Band B o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion, ac yn olaf, cymeradwyo newid y Rhaglen Gyfalaf i adlewyrchu'r ymrwymiad newydd.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 fod y Cabinet, yn 2010, wedi cymeradwyo'r cynlluniau a argymhellwyd a oedd wedi'u cynnwys ym mhob un o bedwar band y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion (A-D) y manylwyd arnynt wedyn yn Rhaglen Amlinellol

Strategol Ysgolion yr 21ain Ganrif Pen-y-bont ar Ogwr. Cyflwynwyd y RhAS i LIC yn 2011, ac fe gafwyd 'cymeradwyaeth mewn egwyddor' gan y gweinidogion ar ei chyfer, yn amodol ar gwblhau proses achos busnes LIC.

Mewn adolygiad strategol o ddatblygiad a gwaith rhesymoli darpariaeth y cwricwlwm ac ystadau ar gyfer addysg gynradd, uwchradd ac ôl-16 a gynhaliwyd yn 2016, nodwyd bod blaenoriaethau Band B wedi'u diwygio ers y rhai a nodwyd yn RhAS 2010.

Cafodd RhAS, sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau diwygiedig, ei chyflwyno i LIC ym mis Gorffennaf 2017. Yn dilyn hynny, cymeradwyodd y Cabinet i derfynu'r cynlluniau Band B gwreiddiol a nodwyd ym mis Tachwedd 2010 a chymeradwyo'r rhestr ddiwygiedig.

Roedd paragraff 3.6 wedyn yn amlinellu'r cynlluniau dan sylw.

Ym mis Rhagfyr 2017, cafwyd 'cymeradwyaeth mewn egwyddor' gan LIC ar gyfer yr ail don o fuddsoddiad ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Amcangyfrifir mai cwmpas costau'r rhaglen yw £68.2 miliwn ar hyn o bryd.

Ym mis Ionawr 2018, rhoddodd y Cyngor gymeradwyaeth mewn egwyddor ar gyfer yr ymrwymiad ariannol yr oedd ei angen ar gyfer Band B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion, yn amodol ar ganfod a neilltuo adnoddau digonol er mwyn bodloni'r ymrwymiad o ran arian cyfatebol.

Parhaodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 drwy ddweud bod LIC wedi diwygio'r ymagwedd at gaffael MBC yn 2018. Byddai Partner Cyflawni'r Sector Preifat yn cael ei gaffael i fod yn brif gyfranddaliwr mewn Partneriaeth Addysg Cymru, gydag awdurdodau lleol (ALlau) a sefydliadau addysg bellach yn cymryd rhan gyda'i gilydd; LIC fyddai'n dal gweddill y cyfranddaliadau. Byddai Partneriaeth Addysg Cymru yn gallu cyflawni cynlluniau cyfalaf, ac eithrio prosiectau Band B. Yn sgil adolygiad LIC o'r MBC, ystyrir bellach nad yw'r trefniant ariannu hwnnw yn addas i gyflenwi ysgolion arbennig.

Ym mis Tachwedd 2018, ailystyriodd y Cabinet opsiynau ariannu'r rhaglen, gan benderfynu, o gymharu'r gost debygol i'r awdurdod lleol dros gyfnod o 30 mlynedd, mai'r defnydd gorau o adnoddau ariannol y Cyngor fyddai defnyddio cyfuniad o gyfalaf a MBC i gyflawni Band B.

Ar ôl penderfyniad y Cabinet ym mis Tachwedd, a chyn cyfarfod y Cyngor, ychwanegodd fod LIC wedi cyhoeddi ei bod wedi adolygu ei chyfradd ymyrraeth ar gyfer grantiau cyfalaf, gan gynyddu'r gyfradd o 50% i 75% ar gyfer cynlluniau ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion, ac o 50% i 65% ar gyfer yr holl gynlluniau eraill; Dywedodd LIC y byddai cyfradd ymyrraeth y MBC yn aros yn sefydlog ar 75%.

Ym mis Rhagfyr 2018, cefnodd y Cabinet ar y penderfyniad a wnaed ym mis Tachwedd (fel y nodir ym mharagraff 3.11 o'r adroddiad hwn), a rhoddodd gymeradwyaeth i fynd ar drywydd opsiwn lle byddai'r holl ysgolion ym Mand B yn cael eu hariannu drwy grant cyfalaf, yn amodol ar ganfod a neilltuo digon o adnoddau i fodloni'r ymrwymiad o ran arian cyfatebol. Yn dilyn hynny, rhoddodd y Cyngor gymeradwyaeth i ddiwygio'r rhaglen gyfalaf.

Ar 7 Chwefror 2019, dywedodd LIC fod Gweinidogion Addysg a Chyllid wedi newid y gyfradd ymyrraeth ar gyfer cynlluniau MBC Band B. Bydd model ariannu'r MBC yn elwa ar gynnydd o 6% yng nghyfradd ymyrraeth grant LIC, hy, yn codi o 75% i 81%.

Wrth symud ymlaen â MBC Band B dywedodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151, ei bod hi'n ofynnol i LIC ffurfioli caffael Partner Cyflawni'r Sector Preifat, ac yn sgil hynny mae LIC wedi gofyn i ALlau gadarnhau eu hymrwymiad i MBC Band B erbyn 31 Mawrth 2019.

Mae'n rhaid i'r hysbysiad contract (a gyhoeddir drwy Gyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd), nodi enwau'r ALlau/SABau fydd yn gallu cyrchu gwasanaethau partner. Mae LIC wedi nodi y gellid bod modd cyflawni cynlluniau cyfalaf y tu hwnt i Fand B (hy, prosiectau dylunio ac adeiladu) drwy Bartneriaeth Addysg Cymru.

Mae LIC wedi dweud y bydd yn ariannu cyfran y sector cyhoeddus o gyfalaf gwaith ym Mhartneriaeth Addysg Cymru, ac felly wedi nodi nad yw'n rhagweld y ceir unrhyw gostau na risgiau yn gysylltiedig ag enwi yn yr hysbysiad contract nac o ymrwymo i'r SPA.

Er gwaethaf yr uchod, ychwanegodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 fod angen i'r Awdurdod fod yn gwbl fodlon â dogfennau cyfreithiol drafft LIC yn gysylltiedig â hyn. Gofynnwyd i LIC am gael gweld y dogfennau fel bo modd eu hadolygu, eu hystyried a'u cymeradwyo o safbwynt yr Awdurdod, cyn ymrwymo i drefniant o'r fath.

Daeth â'i chyflwyniad i ben wedyn drwy gyfeirio goblygiadau ariannol yr adroddiad i sylw'r Aelodau, gan gasglu o'r 4 Opsiwn ariannu a ddangoswyd ym mharagraff 8.1 (yr adroddiad), y dylai'r Cyngor ystyried mynd ar drywydd Opsiwn 3 am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.

Yn dilyn hynny, gofynnodd yr aelodau amryw o gwestiynau a atebwyd yn briodol gan y Swyddogion.

Wedi hynny, daeth yr Arweinydd â'r drafodaeth ar yr eitem i ben, drwy ddweud bod gan y Cyngor a'r Cabinet rolau gwahanol wrth ystyried cynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf. Rôl y Cyngor oedd cymeradwyo cyllid ar gyfer ymrwymiadau'r rhaglen gyfalaf, ond y Cabinet oedd yn ystyried ac yn cymeradwyo'r cynlluniau amrywiol eu hunain.

PENDERFYNWYD: (1) Bod y Cyngor yn cymeradwyo mewn egwyddor yr ymrwymiad ariannol diwygiedig ar gyfer Opsiwn 3, fel y cafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet, sydd ei angen ar gyfer Band B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion. Byddai'r gymeradwyaeth yn amodol ar ganfod a neilltuo digon o adnoddau i fodloni'r ymrwymiad o ran arian cyfatebol.

(2) Bod y Cyngor at hynny yn cymeradwyo cynnwys y gyllideb ddiwygiedig sydd ei hangen yn gysylltiedig â Band B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn y rhaglen gyfalaf.

## 292. DATGANIAD POLISI TÂL 2019/20

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadol adroddiad. Pwrpas yr adroddiad oedd gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2019/20. Roedd hyn mewn ymateb i ofynion deddfwriaethol ac er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn agored ac yn atebol o ran y modd y mae'n gwobrwyo ei staff.

Dywedodd fod Datganiad y Polisi Tâl yn creu'r fframwaith ar gyfer penderfyniadau ynghylch tâl, ac yn enwedig, penderfyniadau ynghylch tâl uwch swyddogion.

Roedd fersiwn wedi'i diweddaru o'r Datganiad Polisi Tâl wedi'i hatodi i'w hystyried gan yr Aelodau yn Atodiad A yr adroddiad. Roedd y datganiad wedi cael ei lunio yn unol â gofynion Deddf Lleoliaeth 2011, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol lunio a chyhoeddi ei bolisi ar bob agwedd ar dâl Prif Swyddogion.

Ers cyflwyno'r Polisi ar 1 Ebrill 2012, yr oedd wedi datblygu i fod yn ystyriol o ganllawiau, deddfwriaeth a newidiadau perthnasol i strwythur uwch reoli'r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf.

O hyn allan, teimlai Aelod y dylai adroddiadau o'r natur hwn fod ar gael i Gynghorwyr gyflwyno sylwadau pellach yn eu cylch (pe baent yn teimlo bod angen gwneud hynny) cyn y 3 diwrnod gwaith clir cyn cyflwyno'r Datganiad Polisi Tâl i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl 2019/20 a nodir yn Atodiad A yr adroddiad.

293. ADRODDIADAU GWYBODAETH I'W NODI

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio adroddiad. Pwrpas yr adroddiad oedd hysbysu'r Cyngor am yr Adroddiad Gwybodaeth i'w nodi a oedd wedi cael ei gyhoeddi ers y cyfarfod diwethaf a amserlennwyd.

Roedd yr Adroddiad Gwybodaeth dan sylw yn cael ei drafod ym mharagraff 4.1 yr adroddiad. Teitl yr adroddiad oedd 'Trafodion Partïon Cysylltiedig 2018-19 a'r Datganiad Cyfrifon.'

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio fod y ffurflenni ar gyfer yr uchod wedi'u cyflwyno i'r Aelodau er mwyn iddynt eu llenwi a'u hanfon yn ôl i'r Adran Gyllid (Nigel Smith) erbyn 12 Ebrill 2019 ar yr hwyraf.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r ddogfen/dogfennau a restrwyd yn yr adroddiad.

294. DERBYN Y CWESTIYNAU A GANLYN ODDI WRTH:

**Y Cynghorydd C Webster i'r Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio**

Sut mae'r Aelod Cabinet yn cynnig y dylid lleihau nifer y plant â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig sydd yn cael eu gwahardd o'r ysgol?

**Ymateb yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio**

GWAHARDDIADAU A DDERBYNIWYD GAN BLANT Â DATGANIAD YM MHEN-Y-BONT AR OGWR

| Blwyddyn academaidd | Nifer y Gwaharddiadau Parhaol | Nifer y Gwaharddiadau Cyfnod Penodol (GCPau) | % y cyfanswm o GCPau ym Mhen-y-bont ar Ogwr | Nifer y Diwrnodiau a Gollwyd yn Sgil GCPau | % o gyfanswm y diwrnodiau a gollwyd i GCPau mewn perthynas â holl GCPau PYBaO |
|---|---|---|---|---|---|
| **2014-15** | 0 | 80 | 11.4% | 228.5 | 12.3% |
| **2015-16** | 1 | 85 | 11.1% | 234.5 | 13.1% |
| **2016-17** | 0 | 56 | 7.2% | 152.5 | 7.7% |
| **2017-18** | 0 | 96 | 13.4% | 277.5 | 15.9% |

Gwelir o'r tabl mai ond un disgybl â datganiad a gafodd ei wahardd yn barhaol rhwng 2014 a 2018. Er nad oes unrhyw ddata cenedlaethol cymaradwy, credir bod hyn yn rhoi adlewyrchiad cadarnhaol o'r ysgolion a'r awdurdod lleol.

Gellir gweld bod nifer a chanran y gwaharddiadau cyfnod penodol wedi codi a gostwng dros yr un cyfnod. Mae'r Adran Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn cydnabod y bu cynnydd mewn ymddygiad tariff uchel ymhlith plant iau, ac wedi ymateb i hyn drwy datblygu darpariaeth

ychwanegol yn y cyfnod sylfaen yn Narpariaeth Amgen y Bont. Mae hyn yn rhoi cyfle i ymyrryd yn fuan a, lle bo'n briodol, i rwyddhau'r broses o ddychwelyd i'r ysgol. Yn ogystal â hyn, cydnabuwyd bod nifer fach o blant sydd wedi arddangos ymddygiad eithriadol o heriol a'u hanghenion yn wahanol i'r proffil a dderbynnir fel arfer yn Ysgol Bryn Castell. Mae adolygiad o'r ddarpariaeth wedi'i gynllunio ar gyfer tymor yr haf 2019.

Yn sgil ad-drefnu Cynhwysiant yn ddiweddar, mae rôl statudol y Prif Seicolegydd Addysg wedi'i chryfhau. Ffocws y rôl hon bellach yw bod yn rheolwr llinell i'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg. Nid yw'n cynnwys bod yn rheolwr llinell ar gyfer gwasanaethau eraill o fewn y Gwasanaeth Cynhwysiant.

Un o flaenoriaethau strategol y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd yw datblygu ffocws trawsgyfarwyddiaethol ar adnabod anghenion yr unigolyn yn fuan er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau a chanlyniadau graddedig mwy effeithiol. Mae Adroddiad Hunanwerthuso'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd 2018-19 yn cyflwyno ystod o dystiolaeth i gefnogi'r gweithgarwch hwn.

Yn sgil yr adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY), ym mis Mawrth 2018, cafodd panel mynediad at addysg ei sefydlu. Bydd hyn yn sicrhau ymdriniaeth brydlon ag anghenion disgyblion. Yn rhan o'r adolygiad hwn, adolygwyd protocolau fel symud ac addysg dan reolaeth. Bydd argymhellion adolygiad AHY yn cael eu gweithredu'n llawn yn ystod 2019-20.

I gyd-fynd a'r panel mynediad at addysg, mae model tîm o amgylch yr ysgol wedi cael ei sefydlu ym mron bob un o'r ysgolion uwchradd lle mae'r ymateb graddedig gan ystod o dimau yn cael ei archwilio. Mae'r model hwn yn cael ei gryfhau ymhellach drwy gyflwyno cynllun lle bydd penaethiaid cynradd yn cefnogi pontio disgyblion o ysgolion cynradd, gyda ffocws ar adnabod anghenion yn gynnar.

Ar ddiwedd 2017, cynhaliodd yr awdurdod lleol adolygiad o'r gefnogaeth a roddir gan yr awdurdod lleol i ddysgwyr sy'n agored i niwed. Y nod oedd datblygu gwasanaeth mwy unedig a chydgysylltiedig a fyddai'n symleiddio'r gefnogaeth ac yn peri bod y gwaith o reoli'r meysydd hyn yn fwy diogel ac yn fwy effeithiol, gan ymateb mewn modd mwy amserol i'r anghenion a nodwyd. Arweiniodd yr adolygiad at greu Tîm Grwpiau sy'n Agored i Niwed a ddaeth yn gwbl weithredol ym mis Mehefin 2018. Nodwyd bod adolygiad o waharddiadau cyfnod penodol sy'n cynnwys rhai a chanddynt ddatganiadau anghenion addysgol arbennig yn faes i'w ddatblygu yn yr Hunanwerthusiad Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn 2019-2020.

Blaenoriaeth strategol arall yw sefydlu gweledigaeth gyffredin i'r Gyfarwyddiaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'r holl dimau gweithredol yn y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd wedi creu eu 'mapiau ffordd gweithredol' eu hunain sy'n dangos y 'llinyn aur' rhwng blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol ac amcanion cyflawni. Bydd aelodau etholedig yn cymryd rhan yn y broses hon yn ystod tymor yr hydref 2019.

O ganlyniad i Ddeddf Tribiwnlys Addysg Anghenion Addysgol Arbennig, bydd gweithredir newidiadau i'r broses o lunio datganiadau. Mae'r awdurdod lleol yn paratoi i weithredu system y Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn rhan o'r Cynllun Trawsnewid ADY a gaiff ei fonitro'n fisol yng nghyfarfod y Bwrdd Trawsnewid. Yn rhan o'r broses weithredu, bydd pob plentyn ac unigolyn ifanc a chanddo ddatganiad ar hyn o bryd yn cael ei ystyried i ddechrau, yn gysylltiedig â symud tuag at CDU. Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i gymhwyso'r trefniadau monitro trwyadl i broses y CDU yn rhan o'i gyfrifoldeb statudol.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd C Webster**

Diolch i'r Swyddogion Addysg am ddarparu gwybodaeth mewn ymateb i'm cwestiwn.

a. Yng nghyfrifiad CYBLD ym mis Ionawr 2018, yr oedd 379 o blant â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)
b. Roedd 32 o ddisgyblion â Datganiad AAA wedi'u gwahardd.
c. Cafodd 16 o ddisgyblion â Datganiad AAA eu gwahardd ar fwy nag un achlysur.

Nid yw hyn yn cynnwys plant sydd yn rhan o'r cynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

Rydw i wedi bod mewn cysylltiad ag amryw o rieni plant â Datganiadau AAA a phlant sydd yn rhan o'r cynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ar draws y Fwrdeistref. Maent hwy yn adrodd problemau tebyg, sef nad yw ymddygiad eu plentyn, sydd yn deillio'n uniongyrchol o'i anabledd, yn cael ei reoli'n briodol. Enghraifft o hyn yw diffyg cefnogaeth yn ystod amser egwyl pan geir llawer o'r digwyddiadau, dulliau o reoli ymddygiad nad ydynt yn addas ar gyfer anabledd y plentyn neu'r ysgol y mae'n ei fynychu.

Beth mae'r Aelod Cabinet yn ei wneud i sicrhau bod yr addasiadau rhesymol sydd eu hangen ar y plant hyn yn cael eu cyflwyno fel nad ydynt yn colli eu haddysg ac yn gallu mynychu'r ysgol, gan fod diffyg presenoldeb yn amharu ar lesiant y teulu cyfan?

**Ymateb yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio**

Gallwch holi'r Gwasanaeth Cyswllt Teuluoedd am wybodaeth yn gysylltiedig â'r uchod, gan gynnwys achosion unigol. Os byddwch yn fy nghopïo i yn y neges, byddaf yn monitro'r sefyllfa ac yn sicrhau yr eir ar drywydd eich ymateb(ion) ac y gweithredir yn sgil hynny.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd P Davies**

Pa ddarpariaeth neu gynlluniau ychwanegol (os o gwbl) sydd wedi cael eu sefydlu yn Ysgol Pont y Crychydd, yn y tymor byr a'r tymor hir, i roi cefnogaeth well i'r bobl ifanc sy'n mynychu (Ysgol) Pont y Crychydd.

**Ymateb yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio**

Efallai y bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r twf yn y galw am y math o ddarpariaeth a geir yn Ysgol Pont y Crychydd, a'n huchelgais yn y tymor canolig yw cael ysgol arbennig newydd wedi'i moderneiddio yn rhan o gynigion ehangach Band B. Mae'r mesanîn ar lawr uchaf Ysgol Pont y Crychydd wedi cynnig darpariaeth ychwanegol o'r fath, ac wedi rhoi cyfle i'r ysgol ddefnyddio'r gofod arall a geir yno i ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion hŷn (i gefnogi eu hanghenion unigol neilltuol). Ychwanegodd fod Tŷ Harwood ar dir Pont y Crychydd hefyd yn cynnig gofod byw i unigolion ag ADY.

**Trydydd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd S Baldwin**

Ac eithrio Pont y Crychydd, pa ddatblygiadau eraill neu ddarpariaeth arall a geir i unigolion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) o fewn y Fwrdeistref Sirol.

**Ymateb yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio**

Ceir dosbarthiadau Arsylwi/Unedau Arbenigol mewn ysgolion amrywiol o fewn y Fwrdeistref Sirol sy'n cefnogi pobl ifanc ag AAA, gan gynnwys y buddsoddiadau canlynol a wnaed yn ddiweddar:-

- Ysgol Bryn Castell - dosbarthiadau Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig a 3 dosbarth ychwanegol yn 2018/19 i gefnogi cynnydd yn nifer y disgyblion yn yr ysgol (cost o fwy na £400,000)

- Canolfannau Adnodd Dysgu Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig - mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg yn 2018/19 er mwyn bodloni'r effaith dros flwyddyn gyfan. Canolfannau Adnodd Dysgu newydd ar gyfer Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig wedi agor yn YGG Llangynwyd, Ysgol Gynradd Pencoed ac YGG Calon y Cymoedd, fydd yn agor ym mis Medi 2019. (£314k)

- Canolfannau Adnodd Dysgu Anawsterau Dysgu Cymedrol - wedi'u dyrannu i Ysgolion Cynradd ac Uwchradd drwy gyllidebau wedi'u dirprwyo iddynt (£320,000). I ysgolion cynradd ar sail dosbarthiadau ac i ysgolion uwchradd ar sail lleoedd.

**Cynghorydd T Giffard i'r Arweinydd**

Fel cyfranogwr a buddsoddwr o bwys ym Margen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a all yr Arweinydd amlinellu'r prosiectau a sicrhawyd hyd yma a fydd o fudd uniongyrchol i bobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr?

**Ymateb yr Arweinydd**

Llofnodwyd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ffurfiol ar 1 Mawrth 2017, ac fe gafwyd cefnogaeth ac ymrwymiad iddi gan bob un o'r 10 o awdurdodau lleol yn Ne Ddwyrain Cymru, gan gynnwys yr awdurdod hwn. Cytundeb gwerth £1.2 biliwn yw'r Fargen er mwyn rhyddhau twf economaidd sylweddol ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Yn benodol, mae'r Fargen yn ceisio gwella cynhyrchiant, mynd i'r afael â diffyg gwaith, adeiladu ar seiliau arloesedd, buddsoddi mewn seilwaith ffisegol a digidol, rhoi cefnogaeth i fusnesau a sicrhau bod pob rhan o'r rhanbarth yn profi budd economaidd.

Cymeradwyodd y deg cyngor partner Gronfa Fuddsoddi Ehangach
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sef cyfanswm o £495 miliwn, a oedd yn cynnwys grant o £375 miliwn oddi wrth Lywodraeth y DU dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd y 10 cyngor partner yn cyfrannu'r £120 miliwn sy'n weddill, ar sail sylfaen eu poblogaeth. Mae'r cyfraniad hwn wedi'i fodelu ar hyn o bryd ar ffurf 100% o gyfalaf. Cyfraniad Pen-y-bont ar Ogwr yw £11 miliwn.

Nid yw'r rhaglen fuddsoddi hirdymor hon ond wedi dechrau ers dwy flynedd, felly mae hi'n ddyddiau cynnar o hyd. Ym mis Mai 2017, cytunodd y Cabinet Rhanbarthol i fuddsoddi £38.5 miliwn o fenthyciad i gefnogi datblygiad clwstwr o led-ddargludyddion cyfansawdd yn y rhanbarth. Mae IQE Ltd wedi symud i hen ffatri LG yng Nghasnewydd. Un ffactor allweddol bwysig yn gysylltiedig â'r buddsoddiad hwn yw cyrhaeddiad IQE, nid yn unig o ran y cyflogeion uniongyrchol sy'n byw ym mhob rhan o'r 10 o awdurdodau lleol partner a'r cyfle am swyddi newydd â chyflog da, ond hefyd o ran y cwmnïau y maent yn gweithio gyda hwy a'u cadwynau cyflenwi ar draws y rhanbarth. Yn ogystal â hyn, mae cael swyddi â chyflogau uchel yn y rhanbarth mewn diwydiant uwch-dechnoleg yn golygu bod Coleg Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn cefnogi'r clwstwr drwy helpu i gyflenwi'r sgiliau a'r hyfforddiant sydd mor bwysig i'r diwydiant.

Yn fwy diweddar, pleser o'r mwyaf oedd i'r Arweinydd gyhoeddi bod buddsoddiad uniongyrchol wedi'i gynllunio yn y Fwrdeistref Sirol yn rhan o gynigion Metro a Mwy. Mae Metro a Mwy yn cynnig potensial i ddatblygu rhaglen gyfan o weithgarwch sydd yn cyfrannu at ddarparu Metro a symudedd yn y rhanbarth, sydd yn cyd-fynd â hynny ac yn ychwanegu at hynny. Prosiect ar y cyd â Llywodraeth Cymru ydyw a'i bwrpas yw gwella cysylltedd y rhanbarth cyfan, gan gefnogi cynlluniau i weithredu cyfres o fesurau mwy lleol yn gyflym, fydd o gymorth i sicrhau datblygiad economaidd cynaliadwy, drwy gysylltu pobl, cymunedau a busnesau â chyflogaeth, gwasanaethau, cyfleusterau a marchnadoedd, drwy seilwaith dibynadwy a chydnerth.

Y cynllun arfaethedig ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw gweithredu cyfleuster parcio a theithio yng ngorsaf reilffordd y Pîl yn rhan o'r gwaith o ddatblygu canolfan

drafnidiaeth integredig sydd hefyd yn gwasanaethu cymunedau lleol Porthcawl, Mynydd Cynffig, Cefn Cribwr a Chorneli. Bydd y cyfleuster arfaethedig gwerth £3 miliwn yn cynnwys lle i oddeutu 75 o geir yn ogystal â chyfleusterau gwefru cerbydau trydan, mannau parcio beiciau, cysylltiadau gwell ag Ystâd Ddiwydiannol Village Farm sydd yn tyfu, a gwelliannau teithio egnïol. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer y defnydd o orsaf y Pîl o 2016/17 yn dangos bod 118,910 o deithiau wedi cychwyn o'r orsaf, sef cynnydd o 35% o gymharu â'r lefelau a gofnodwyd yn 2011/12.

Roedd yr Arweinydd yn falch fod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac yn edrych ymlaen at weld y buddion a'r prosiectau a wireddir ar draws y rhanbarth dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'r cynllun Diwydiannol ac Economaidd ar gyfer y rhanbarth a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ac a ddatblygwyd gan y Diwydiant, yn amlygu meysydd twf a manteision cystadleuol posibl i'r rhanbarth, gan gynnwys mewn meysydd fel Biodechnoleg ac Ynni, ac rwy'n sicr bod Pen-y-bont ar Ogwr mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y cyfleoedd hyn fydd yn dod i'r amlwg yn y dyfodol.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd. T Giffard**

Diolch am eich ymateb ac am y diweddariad ychwanegol yn eich adroddiad yn gynharach. Fodd bynnag, canfyddiad trigolion ar hyd a lled Pen-y-bont ar Ogwr yw ein bod yn rhoi llawer o arian i Gaerdydd a allai gael ei wario ar wasanaethau lleol yma ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Rwy'n siŵr nad yw hynny'n wir, ac os nad yw'n wir, beth mae'r Arweinydd yn mynd i'w wneud i sicrhau bod gan bobl ddealltwriaeth well o'r cyfleoedd a allai ddod yn sgil y Fargen Ddinesig o ran swyddi a buddsoddi.

**Ymateb yr Arweinydd**

Prosiect i wella gorsaf reilffordd y Pîl (fel y soniwyd uchod) fyddai'r prosiect cyntaf yr ystyrir ei dargedu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a hynny'n rhan o Metro a Mwy. Byddai hyn, yn anad dim, o fudd i drigolion a chymuned ehangach Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (yn enwedig yn ardal y Pîl/Cynffig) a hefyd o fudd i eraill mewn ardaloedd pellach. Prosiect gwerth £1.2 biliwn yw Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac ni fyddai'r prosiect yn esgor ar ganlyniadau dros nos, gan mai prosiect dros gyfnod o 10 mlynedd ydyw. Byddai hefyd yn ceisio denu busnesau i Ben-y-bont ar Ogwr a'r rhanbarth ehangach, er mwyn hyrwyddo adfywio a ffyniant economaidd yn y Fwrdeistref Sirol ac mewn lleoliadau eraill yn Ne Ddwyrain Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y Fargen Ddinesig. Nid oes unrhyw fwriad i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd dargedu unrhyw leoliad ar draul y llall, gan gynnwys ardal y brifddinas ei hun. Mae'n ymwneud yn fwy â datblygu prosiectau sydd yn creu'r budd mwyaf i'r rhanbarth cyfan yn y tymor hir, yn hytrach na chanolbwyntio'n benodol ar yr ardaloedd sydd yn ffurfio'r deg Awdurdod sy'n cymryd rhan yn y Fargen Ddinesig.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd J Gebbie**

Mae'r gwelliannau sydd wedi'u cynllunio i orsaf reilffordd y Pîl yn swm sylweddol o fuddsoddiad. Roedd hi'n gobeithio y ceid gwasanaethau mwy rheolaidd ar hyd y llwybr hwn yn sgil y buddsoddiad hwnnw, a fyddai hefyd yn golygu bod trenau yn stopio'n amlach yn y Pil, i godi/gollwng teithwyr o'r ardal honno a'r ardaloedd cyfagos.

**Ymateb yr Arweinydd**
Uchelgais CBS Pen-y-bont ar Ogwr yw cael gwasanaethau trên mwy mynych (ac arosiadau codi/gollwng) yn y Pîl ac mewn gorsafoedd eraill yng ngorllewin y Fwrdeistref Sirol er mwyn pontio'r bwlch gyda gwasanaethau tebyg i'r dwyrain. Bydd yr awdurdod yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.

**Trydydd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd R Penhale-Thomas**

Yn ddiweddar aeth llond llaw o arweinwyr llywodraeth leol o Dde Ddwyrain Cymru i gynhadledd MIPIM yn Cannes, arddangosfa eiddo ac eiddo tirol, yn rhan o'r gwaith i farchnata Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Ar ddiwedd eu hymweliad, siaradodd Cadeirydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Andrew Morgan, am bosibiliadau newydd cyffrous ar ôl cymryd rhan mewn nifer o drafodaethau â rhanddeiliaid. A all yr Arweinydd rannu'r posibiliadau hynny â ni?

**Ymateb yr Arweinydd**

Nid oes unrhyw fanylion hyd yma. Fodd bynnag, aethpwyd ar drywydd dros 150 o gynlluniau posibl gyda darpar ddatblygwyr posibl yn sgil yr ymarfer marchnata uchod. Mae angen inni sicrhau ein bod yn gwerthu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a manteision ei phrosiectau posibl i ddarpar fuddsoddwyr, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau'r diddordeb a'r buddsoddiad ychwanegol posibl a ddaw yn sgil hynny i Ben-y-bont ar Ogwr, ac i ardaloedd eraill sydd wedi'u cynnwys ym Margen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

**Y Cynghorydd T Thomas i'r Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar**

A wnaiff yr Aelod Cabinet perthnasol roi amlinelliad o'r hyn sydd a wnaed i leihau'r cyfraddau smygu yn y Fwrdeistref Sirol i'r rhai sydd yn dymuno rhoi'r gorau iddi?

**Ymateb yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar**

Gweler Atodiad A sydd ynghlwm wrth y Cofnodion hyn.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd. T Thomas**

A yw'r cyngor yn cefnogi defnyddio e-sigarennau fel dull o leihau cyfraddau smygu tybaco ymhlith y rhai sy'n dymuno rhoi'r gorau i'r arfer, fel dull o gefnogi iechyd a phobl?

**Ymateb yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol**

Nid oes gennym bolisi atal smygu, ond mae'r Cyngor yn gweithio ar Bolisi Atal Tlodi. Fel y nodir uchod, mater i Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn fwy na neb arall, yw smygu. Felly awgrymaf y dylech gysylltu â hwy i'w holi ymhellach ynghylch hyn. Mae'r Weithrediaeth, fodd bynnag, yn annog pobl i beidio smygu gan fod hynny'n niweidio'r bobl sydd yn smygu a'r cyhoedd ar raddfa ehangach. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod hyn yn rhywbeth y gellid ei ystyried ymhellach drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. At hynny, ychwanegodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio y bydd unrhyw ddisgybl sy'n cael ei ddal yn smygu yn yr ysgol yn wynebu cosb ddifrifol, a bydd athrawon hefyd yn wynebu cosb os cânt eu dal yn gwneud hynny.

**Y Cynghorydd A Hussain i'r Dirprwy Arweinydd**

Ni wnaeth 40% o larymau mwg sydd yn rhedeg ar fatri, na 22% o larymau mwg prif gyflenwad, actifadu ar linellau preswyl yn Lloegr. Dengys ystadegau o'r diwydiant nad yw mwy nag un o bob pump fyth yn profi eu larymau, ac nad oes gan 1 o bob 10 deilydd tŷ unrhyw larwm mwg sy'n gweithio. Yng Nghymru, aeth Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru i 8,271 o danau mewn anheddau rhwng 2017-18, sef cynnydd o 25%,ac nid oedd larwm mwg wedi'i osod yn 3 o bob 10 o'r anheddau hynny. Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, sy'n cynrychioli dros 370 o gynghorau ac awdurdodau tân yng Nghymru a Lloegr yn annog deiliaid tai i brynu larwm mwg a'i wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio. A ydym yn gwybod beth yw'r ffigurau ystadegol ar gyfer larymau mwg a fethodd yma yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr, a beth yw ein polisi er mwyn cadw ein trigolion yn ddiogel?

**Ymateb y Dirprwy Arweinydd**

Mae system larwm gwifrau sefydlog wedi'i gosod yn holl eiddo preswyl, corfforaethol ac addysg CBS Pen-y-bont ar Ogwr hyd at safon L1 (pob ystafell drwy'r holl eiddo, gan gynnwys ystafelloedd storio a gofodau yn yr atig). Caiff pob system ei phrofi hyd at safon BS5839-1:2017. Mae'n ofynnol inni arolygu'r rhain o leiaf 2 waith y flwyddyn, ond rydym ar hyn o bryd yn eu harolygu 4 gwaith ac yn trwsio unrhyw ddiffygion a ddaw i'r amlwg ar yr un diwrnod os oes modd. Os nad yw hynny'n bosibl, mae gennym brotocol i roi gweithdrefnau eraill ar waith ar y safle nes bo unrhyw waith trwsio wedi'i gwblhau.
Nid oes unrhyw gofnod o ddigwyddiadau yn 2018/19 lle na wnaeth larwm actifadu. Nid yw hyn yn cynnwys y stoc o dai domestig y mae Cymoedd i'r Arfordir (V2C) yn berchen arnynt ac yn eu cynnal.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd A Hussain**

Mae llawer o breswylwyr yn fy ward ac yn y Bwrdeistref heb larymau mwg, ac rydym yn gwybod eu bod yn gallu achub bywydau, ac mae hynny wedi'i brofi. Mae angen iddynt hefyd fod yn ymwybodol o beryglon carbon monocsid, nwy hynod o wenwynig nad oes ganddo unrhyw liw, blas nac arogl. A oes Gwasanaethau Tân ac Achub yn y Fwrdeistref a all helpu'r trigolion hynny a gosod synwyryddion mwg a charbon monocsid yn rhad ac am ddim, yn enwedig i'r rhai sydd yn teilyngu hynny a'r henoed, yn rhan o ymweliad diogelwch tân yn y cartref?

**Ymateb y Dirprwy Arweinydd**

Mae angen i chi ymgynghori â Gwasanaeth Tân De Cymru ynghylch hyn. Ond ychwanegodd y byddai'n ymdrechu i gael yr wybodaeth hon ei hun ac wedi hynny yn trefnu i'w rhannu â'r holl Aelodau y tu allan i'r cyfarfod. Byddai'r Gwasanaeth Tân hefyd, ar gais, yn ymweld â chartrefi unigol ac yn cynnal Gwiriad Iechyd/Asesiad Diogelwch er mwyn canfod a fyddai unrhyw larymau mwg neu ddyfeisiau tebyg o fudd sylweddol i'r eiddo, o safbwynt iechyd a diogelwch. Ychwanegodd un o'r Aelodau, o dan reoliadau Rheoli Adeiladu, fod synwyryddion mwg a thân yn cael eu gosod ym mhob gartref newydd fel gofyniad sylfaenol.

**Y Cynghorydd MC Voisey i'r Aelod Cabinet - Cymunedau**

A all yr Aelod Cabinet roi gwybod i'r Cyngor faint o hysbysiadau cosb gorfodi a gyflwynwyd, a gwerth yr hysbysiadau hynny, dros y 12 mis diwethaf ar gyfer:

- Troseddau parcio
- Baw Ci
- Sbwriel a thipio anghyfreithlon
- Peidio cydymffurfio â rheoliadau casglu gwastraff

**Ymateb yr Aelod Cabinet - Cymunedau**

Mae'r ffigurau y gofynnwyd amdanynt o ran nifer yr hysbysiadau gorfodi cosb a gyflwynwyd yn y 12 mis diwethaf wedi'u nodi isod. Mae Hysbysiad Cosb Sefydlog fel arfer yn golygu dirwy/taliad o:

| | | |
|---|---|---|
| Baw Ci, Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon | £100 | |
| Troseddau Parcio: | | |
| Aros y rhy hir mewn maes parcio | £25 i £ 50 | Swm is am dalu’r ddirwy yn gynnar |
| Llinellau melyn dwbl/Mannau i bobl anabl | £35 i £ 70 | Swm is am dalu'r ddirwy yn gynnar |

Nodir bod nifer o hysbysiadau cosb yn cael eu cyflwyno ac wedyn yn cael eu canslo, eu rhoi heibio, neu'n hysbysiadau nad yw'r Cyngor yn mynd ar eu trywydd. Y prif reswm am hyn yn achos troseddau parcio yw apelau llwyddiannus (887), ac oes yw'r hysbysiad yn cael ei 'ddiystyru' (468) am amrywiaeth o resymau fel gwallau, wedi'i ddifrodi, dim gwybodaeth gan y DVLA, beilïod yn methu casglu ac ati.

Yn yr un modd, mae nifer o'r hysbysiadau'n gysylltiedig â thipio anghyfreithlon hefyd yn cael eu 'rhoi heibio' oherwydd penderfynir mewn sawl achos fod y sbwriel mewn gwirionedd wedi'i gyflwyno yn y dull anghywir mewn ardal breswyl, er ei fod wedi'i riportio fel achos o dipio'n anghyfreithlon. Bryd hynny mae'n well ymgysylltu â'n timau addysg gwastraff i ddechrau er mwyn ceisio canfod ffordd o wella'r modd y cyflwynir gwastraff a chynyddu'r gyfradd ailgylchu mewn ardal benodol. Wrth gwrs, os bydd diffyg cydymffurfio â pholisïau gwastraff y Cyngor yn parhau i achosi problem, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gyflwyno hysbysiadau cosb sefydlog mewn rhai amgylchiadau.

I gloi, ni cheir unrhyw achosion o gyflwyno hysbysiad cosb sefydlog dros y 12 mis diwethaf am ollwng sbwriel a baw ci. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi gofyn i bartner allanol gyflawni gwaith gorfodi ar ei ran yn gysylltiedig â'r materion hyn, felly yn sgil y cynnydd hwnnw mewn adnoddau rhagwelwn y bydd nifer yr hysbysiadau'n cynyddu dros y 12 mis nesaf.

| **O fis Mawrth 2018 i fis Mawrth 2019** | **Nifer a Gyflwynwyd** | **Nifer a Dalwyd** | **Nifer a Hepgorwyd** |
|---|---|---|---|
| Troseddau Parcio | 8531 | 6225 | 1355 |
| Baw Ci | 0 | 0 | 0 |
| Sbwriel | 0 | 0 | 0 |
| Tipio anghyfreithlon | 76 | 19 | 47 |
| Diffyg cydymffurfio â Rheoliadau Casglu Gwastraff | 11 | 1 | 10 |

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd MC Voisey i'r Aelod Cabinet - Cymunedau**

Beth mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i leihau baw ci ac achosion eraill o ollwng sbwriel, tipio anghyfreithlon ac ati? I gefnogi ei gwestiwn atodol, darllenodd lythyr oddi wrth unigolyn ifanc o ardal yr Hengastell ynghylch baw ci.

**Ymateb y Dirprwy Arweinydd/Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol**

O ddiwedd mis Ebrill 2019, byddai Tîm Gorfodi yn cael ei sefydlu yn rhan o Gontract cytunedig, er mwyn cryfhau'r broses o gyflwyno hysbysiadau cosb sefydlog i unigolion sy'n cael eu dal yn gollwng sbwriel/caniatáu i'w ci faeddu ardal gyhoeddus ac ati. Nid yw nifer yr hysbysiadau a gyflwynwyd i aelodau o'r cyhoedd, fel y dangosir yn yr ymateb i'r cwestiwn gwreiddiol uchod, o ran y nifer a dalwyd (mewn dirwyon) a'r rhai a hepgorwyd, yn cyfateb, oherwydd rydym yn disgwyl i rai o'r achosion hyn gael eu cwblhau. Fel yr hysbysodd y Dirprwy Arweinydd, gobeithir y bydd y Contract newydd fydd yn weithredol o ddiwedd mis Ebrill yn arwain at gyflwyno mwy o Hysbysiadau/dirwyon, a fydd yn eu tro gobeithio yn achosi i'r cyhoedd fod yn fwy ymwybodol o'r cosbau posibl o'u cael yn euog o gael gwared ag amrywiaeth o sbwriel yn anghyfreithlon. Ychwanegodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol mai'r gobaith oedd y byddai'r incwm yn sgil cyflwyno hysbysiadau/dirwyon a delir yn creu digon o adnoddau i ariannu'r Contract. Roedd gwasanaeth tebyg wedi cael ei roi ar waith yn llwyddiannus yng Nghyngor Bro Morgannwg. Ni

fyddai hysbysiadau yn cael eu cyflwyno bob tro os oedd ffactorau i liniaru hynny, hy pe bai aelod o'r cyhoedd yn anghofio ei fathodyn glas ac wedyn yn profi ei fod yn dal bathodyn o'r fath, gyrwyr yn dangos bod ganddynt awdurdod i barcio mewn cilfan lwytho ac ati. Roedd arian hefyd yn cael ei fuddsoddi er mwyn addysgu'r cyhoedd i ymddwyn yn fwy cyfrifol ac i beidio gollwng/gwaredu mathau amrywiol o sbwriel, yn hytrach na chosbi drwgweithredwyr am wneud hynny yn unig.

295. EITEMAU BRYS

Dim.

296. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Y dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem a ganlyn, o dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y cafodd ei diwygio gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, gan fod yr eitem honno'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 ac ym Mharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y cafodd ei diwygio gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.

Ar ôl cymhwyso’r prawf budd cyhoeddus, penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod, yn unol â’r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, er mwyn trafod yr eitem a ganlyn yn breifat, gan y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir uchod.

297. COSTAU DILEU SWYDDI AC YMDDEOLIAD CYNNAR SY’N FWY NA £100,000

Daeth y cyfarfod i ben am 17:10

Ymateb i Gwestiwn i'r Weithrediaeth - Y Cynghorydd Tim Thomas

Ymdrinnir â chynlluniau i leihau lefelau smygu yng Nghymru ym PABM ac ym Mhen-y-bont ar Ogwr drwy'r blaenoriaethau Rheoli Tybaco a amlinellir yn y Cynllun Cyflawni ar Reoli Tybaco yng Nghymru 2017-20 (Llywodraeth Cymru 2017). Mae hyn yn cynnwys tri phrif faes:

- Cefnogi mwy o ysmygwyr i roi'r gorau iddi yn llwyddiannus (rhoi'r gorau i ysmygu)
- Gweithredu mesurau amgylcheddol fel ei bod hi'n arferol peidio smygu ym mhob rhan o'r boblogaeth (amgylcheddau di-fwg)
- Atal pobl ifanc rhag defnyddio tybaco yn y lle cyntaf (atal smygu)

**1. Rhoi'r Gorau i Smygu**

Er mwyn cynorthwyo smygwyr sydd wedi'u hysgogi ac yn dymuno rhoi'r gorau i'r arfer, y dull mwyaf effeithiol yw defnyddio gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu a gomisiynir gan y GIG, sy'n cynnig cefnogaeth ymddygiadol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar y cyd â therapi meddygol/disodli nicotîn priodol. Mae cyfradd lwyddo'r ddarpariaeth honno 4 gwaith yn fwy na'r gyfradd sy'n llwyddo i roi'r gorau iddi heb gymorth.

'Helpa Fi i Stopio' yw'r brand ar gyfer gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu yng Nghymru. Gall smygwyr ddefnyddio'r gwasanaeth drwy hunangyfeirio neu drwy gael eu cyfeirio gan weithiwr proffesiynol:
Dewisiadau cyfeirio smygwyr:

- Gofyn am alwad yn ôl ar-lein: www.helpmequit.wales/quit-now
- Ffonio Helpa Fi i Stopio yn uniongyrchol: 0800 085 2219
- Neges-destun: HFS i 80818

Dewisiadau cyfeirio proffesiynol:

- Defnyddio llwybrau cyfeirio presennol
- Defnyddio'r dudalen gyfeirio broffesiynol ar wefan Helpa Fi i Stopio: www.helpmequit.wales/professional-referrer
- Galw ar ran y cleient: 0800 085 2219

Bydd y smygwr yn siarad â gweithiwr yng nghanolfan alwadau Helpa Fi i Stopio, fydd yn trafod y dewisiadau o ran yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir mewn gwahanol leoliadau, a'r hyn a fyddai'n cyd-fynd orau ag anghenion y smygwr, er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddo lwyddo.

Gall smygwyr yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr fanteisio ar wasanaeth amrywiaeth o ddarparwyr Helpa Fi i Stopio sy'n gweithredu ar draws ardal gyfredol ABM.

- Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu ysbyty PABM
- Gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu mewn fferyllfeydd cymunedol
- Dim Smygu Cymru

Cynigir cefnogaeth ar sail un wrth un, mewn grŵp neu drwy gefnogi dros y ffôn.

**Darparwyr Gwasanaeth Helpa Fi i Stopio ym Mhen-y-bont ar Ogwr**

- Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Smygu Lefel 3 mewn Fferyllfa Gymunedol:
    - Gwasanaeth 12 wythnos
    - Therapi Disodli Nicotîn a Chefnogaeth Ymddygiadol
    - Wedi'i gyflenwi gan Fferyllydd neu dechnegydd cofrestredig
    - Mae 24 o'r 33 o fferyllfeydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi'u comisiynu i gyflenwi'r gwasanaeth lefel 3.

- Dim Smygu Cymru:
    - Sesiynau Grŵp mewn lleoliadau cymunedol

- Cymorth dros y ffôn ar gael
- Sesiynau Un wrth Un
- Mae sesiynau ar hyn o bryd yn cael eu cynnal ar hyd a lled Pen-y-bont ar Ogwr yn y lleoliadau ac ar yr amseroedd a ganlyn:
  - Meddygfa Coed Derwen - Prynhawn Iau
  - Meddygfa Querella Road - Clinig nos Iau
  - Canolfan Chwaraeon Maesteg - Clinig bore Sadwrn
  - Meddygfa Bron y Garn - Bore Gwener
  - Meddygfa Tyn y Coed - Prynhawn Mawrth
  - Meddygfa Riversdale - Bore Mercher
  - Meddygfa Woodlands - Prynhawn Mercher
  - Meddygfa Llyfi - prynhawn Mercher
  - Meddygfa Pencoed - Bore Iau

- Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Smygu Ysbyty Bwrdd Iechyd PABM:
  - Ysbyty Singleton
  - Ysbyty Treforys
  - Ysbyty Castell-nedd Port Talbot
  - Ysbyty Tywysoges Cymru
  - Gwasanaeth ar gael i gleifion mewnol, cleifion allanol a staff

**2. Gwaith ychwanegol a gyflawnwyd Mhen-y-bont ar Ogwr i helpu pobl i roi'r gorau i smygu a hyrwyddo Helpa Fi i Stopio**

Brandio a marchnata:

- Ymgyrch HFS genedlaethol sy'n cynnwys ardal Pen-y-bont ar Ogwr - gan gynnwys:
  - Pytiau byr dwyieithog ar y teledu ym mis Mai / Hydref a mis Ionawr
  - Fideo ar Alwad
  - Hysbysebu digidol - FB / Instagram / Y Rhwydwaith Chwilio Byd-eang / Fideo InRead / YouTube
  - Hysbysebion y tu allan i'r cartref - ar y trên (Mai / Hydref / Ion / Chwef) ac ar y tu mewn i fysus (Mai)
  - Ymgyrch wedi'i thargedu ar YouTube
  - Cynhyrchu bagiau fferyllfa ar gyfer fferyllfeydd cymunedol dethol mewn ardaloedd lle ceir lefelau smygu uchel.
- Deunydd marchnata a phecyn cyfathrebu HFS wedi'u cylchredeg yn eang ymhlith partneriaid lleol perthnasol
- Gwaith wedi'i gyflawni i farchnata brand HFS gyda thîm cyfathrebu PABM
- Mae pob meddyg teulu, deintydd, optegydd, fferyllfa yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr wedi derbyn adnoddau Helpa Fi i Stopio (hy, posteri, taflenni a chardiau)
- Mae gofal sylfaenol ac eilaidd y hyrwyddo HFS ymhlith cleifion drwy ddefnyddio deunyddiau cyhoeddusrwydd HFS.
- Deunyddiau marchnata a phecyn cyfathrebu HFS wedi'u hyrwyddo ymhlith ysgolion cynradd a rhieni ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn rhan o'r fenter gatiau di-fwg.
- Hyrwyddo HFS yn rhan o'r broses o weithredu Rhaglen Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif: e-ddysgu, hyfforddi o fewn y Bwrdd Iechyd a chyda sefydliadau partner

Gofal sylfaenol

- Mae Clystyrau Gofal Sylfaenol yn cynnwys camau yn eu cynlluniau clwstwr i leihau'r lefelau smygu ymhlith eu poblogaethau, gan gynnwys:

- Cynyddu atgyfeiriadau i Helpa Fi i Stopio
- Cynnal clinigau HFS mewn practisau
- Hyrwyddo ymgyrchoedd

- Mae prosiect asesu risg clefyd cardiofasgwlaidd yng Nghlwstwr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr yn atgyfeirio i HFS. Cynnig atgyfeiriad i wasanaethau stopio smygu i bob smygwr, a 70 o gleifion wedi manteisio ar yr atgyfeiriad rhwng mis Awst 2017 a mis Mawrth 2018. Mae hyn yn cynrychioli 7.6% o'r holl brofion asesu risg clefyd cardiofasgwlaidd a gwblhawyd.

Gweithleoedd

- Gwaith manwl drwy leoliadau, gan gynnwys gweithleoedd a chyflogwyr mawr drwy raglen Cymru Iach ar Waith.
- Digwyddiadau ymgysylltu ym Mhrosiect Ymgysylltu Ystâd Pen-y-bont ar Ogwr
- Dylid ymchwilio i gysylltiadau â SONY Pen-y-bont ar Ogwr

**3. Amgylcheddau di-fwg**

Yn ogystal â gweithgarwch rhoi'r gorau i smygu, mae'r bwrdd iechyd a'i bartneriaid yn gweithredu ar y cyd i leihau'r nifer sy'n dechrau smygu, ac i ddad-normaleiddio smygu drwy ddatblygu a gorfodi amgylcheddau di-fwg, er enghraifft ysbytai di-fwg (gan gynnwys Ysbyty Tywysoges Cymru). **Mae'r fenter gatiau ysgol di-fwg wedi cael ei gweithredu yn holl ysgolion cynradd ac uwchradd Pen-y-bont ar Ogwr.**

**4. Atal**

Mae ysgolion yn lleoliadau allweddol o ran iechyd y cyhoedd. Er ei gychwyniad, mae Cynllun Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru wedi meithrin perthnasoedd a dylanwad cryf o fewn ysgolion. Mae'r cynllun yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd, ac ychwanegwyd elfen cyn-ysgol yn 2011. **Mae Tîm Ysgolion Iach ABM yn cydgysylltu'r gwaith o gyflawni'r rhaglen yn lleol yn holl ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr gan gydweithio ag Adran Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac ysgolion y sir.**
**Dyma'r hyn a wnaed yn rhan o'r gwaith i ymdrin â thybaco ar y cyd â'r ysgolion a'r cyngor:**

- **Menter gatiau di-fwg yn holl ysgolion cynradd Pen-y-bont ar Ogwr.**
- **Lansio gatiau ysgol di-fwg yn holl Ysgolion Cyfun Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Mawrth 2019**
- **Rhannu adnoddau rheoli tybaco mewn ysgolion cynradd**
- **Hyfforddiant ar reoli tybaco i athrawon ysgolion cyfun**
- **Cyflwyno'r rhaglen atal Just B i 4 ysgol gyfun a dargedir ym Mhen-y-bont ar Ogwr (meini prawf ar gyfer cynnwys yn y cynllun)**
- **Cyflwyno rhaglen graidd yr Heddlu**
- Cynnwys gwybodaeth am reoli tybaco mewn cylchlythyrau Ysgolion Iach
- Annog ysgolion i rannu negeseuon drwy eu platfformau cyfryngau cymdeithasol a thrwy fecanweithiau cyfathrebu eraill.

**Atodiad**


**1. Lefelau Smygu**

Mae'r data diweddaraf o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18 yn amcangyfrif bod 20.2% o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr (16+ oed) yn smygu. Mae hyn fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 19%. Yn Nangosyn 1 gwelir y lefelau smygu diweddaraf ar gyfer Sir Pen-y-bont ar Ogwr ac ar gyfer siroedd eraill sydd yn rhan o ardal y Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg cyfredol (sydd yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe ar hyn o bryd).
*DS o 1 Ebrill ni fydd ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o Fwrdd Iechyd PABM mwyach. Bydd yn ymuno â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i ffurfio Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg. Bydd PABM yn cynnwys ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ac yn cael ei alw'n Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.*
Dangosyn 1:

| **Lefelau Smygu (%) (16 oed+)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **PABM** | **Pen-y-bont ar Ogwr** | **CNPT** | **Abertawe** | **Cymru** |
| Arolwg Cenedlaethol Cymru (2017/18) | **22.0** | **20.2** | **25.8** | **19.7** | **19.0** |

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018*

Yn Nangosyn 2 gwelir lefelau smygu yn ardaloedd awdurdod lleol Cymru. Mae Pen-y-bont ar Ogwr ar y 7fed safle o ran lefelau smygu (20.2%) o blith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.
Dangosyn 2:





*Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18*

Yn 2016, newidiwyd yr arolwg o'r boblogaeth yng Nghymru o Arolwg Iechyd Cymru i Arolwg Cenedlaethol Cymru newydd. Mae'r data a gasglwyd a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y ddau arolwg yn wahanol, ac felly ni ellir cymharu lefelau smygu rhwng y naill arolwg a'r llall, na rhwng y cyfnodau hynny o amser.

Mae Dangosyn 4 yn dangos tueddiadau lefelau smygu (pobl 16+ oed) ym Mhen-y-bont ar Ogwr o gymharu â Chymru ar gyfer y cyfnod o 10 mlynedd yn Arolwg Iechyd Cymru 2005-2015. Gellir gweld bod cyfraddau smygu wedi gostwng dros y cyfnod hwn, yn unol â'r duedd yng Nghymru gyfan, ond i raddau ychydig y llai.

Dangosyn 3:




*Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd 2018*

Mae Dangosyn 4 yn rhoi dadansoddiad rhifyddol o graff tueddiadau dangosyn 3 uchod.

Dangosyn 4:

| | Area | 2005/6-2007 | 2007-2008 | 2008-2009 | 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 | 2013-2014 | 2014-2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Age-standardised percentage | ABM UHB | 25.5 | 23.7 | 23.5 | 22.9 | 23.3 | 23.6 | 23.0 | 21.0 | 18.7 |
| | Swansea | 25.4 | 23.5 | 22.9 | 22.0 | 22.8 | 24.2 | 22.5 | 20.2 | 17.5 |
| | Neath Port Talbot | 25.9 | 24.8 | 24.8 | 25.7 | 24.8 | 23.5 | 24.8 | 23.1 | 20.9 |
| | Bridgend | 25.2 | 22.7 | 23.2 | 21.8 | 22.6 | 22.6 | 22.0 | 20.0 | 18.4 |
| | Wales | 24.5 | 23.7 | 23.6 | 23.4 | 22.8 | 22.6 | 21.9 | 20.9 | 20.0 |

Produced by Public Health Wales Observatory, using WHS (WG).
Please consult the technical guide for full details on how this indicator is calculated.

*Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd 2018*


Mae Dangosyn 5 yn dangos mai'r gyfradd smygu i blant 11-16 oed yn ardal PABM (% sy'n smygu o leiaf unwaith yr wythnos) yw 3%. Gellir dadansoddi hyn ymhellach yn 3% o ferched a 3% o fechgyn. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 4%. Nid oes dadansoddiad pellach o'r data hyn ar gael fesul ardal awdurdod lleol.

Dangosyn 5:

## Lefelau ysmygu yn ôl BILI

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

***Pa mor aml ydych yn ysmygu tybaco ar hyn o bryd?***




**% sy'n ysmygu o leiaf unwaith yr wythnos**

| | Bechgyn | Genethod |
|---|---|---|
| Abertawe Bro Morgannwg | 3% | 3% |
| Aneurin Bevan | 5% | 5% |
| Betsi Cadwaladr | 3% | 4% |
| Caerdydd a'r Fro | 2% | 4% |
| Cwm Taf | 5% | 5% |
| Hywel Dda | 3% | 3% |
| Addysgu Powys | 3% | 3% |

Sail: *Pob ymatebydd rhwng 11 a 16 oed, a arolygwyd rhwng Tachwedd 2013 a Mawrth 2014 (9,029)*

Ffynhonnell: Ipsos MORI

*Nid oes perthynas ystadegol arwyddocaol rhwng ysmygu tybaco o leiaf unwaith yr wythnos a'r BILI:*

Ipsos MORI
Public Affairs Sleid 83

Ffynhonnell: Ymddygiadau Iechyd Plant Oedran Ysgol 2013/14